Asiantaeth Ffilm Cymru: Strategaeth Arddangos

Arddangos: Cyflwyniad

Blaenoriaeth yr Asiantaeth yw hybu diwylliant ffilm bywiog a deinamig, drwy ledaenu mynediad ac ehangu ystod y ffilmiau sydd ar gael i gynulleidfaoedd ledled Cymru. Ein bwriad yw:

- cefnogi gweithgaredd craidd yr arddangoswyr ffilm yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i ddangos ffilmiau arbenigol, diwylliannol neu ffilmiau nad ydynt yn perthyn i'r prif-ffrwd;
- cefnogi gweithgaredd gwyliau ffilm a rhaglenni a digwyddiadau arbennig.

Arddangos: Egwyddorion Arweiniol

- 'Rydym yn gweithredu polisi cyflwyno 'drws agored' parhaol. Hynny yw, byddwn yn derbyn cyflwyniadau ar unrhyw adeg, gan unrhyw un ac yn ystod unrhyw gyfnod o ddatblygiad y cyflwyniad. Os bydd hi'n ddyddiau cynnar ar y cyflwyniad, ond fod Bwriadau ac Amcanion ac Egwyddorion Arweiniol yr Asiantaeth yn cael, neu yn debygol o gael eu cyflawni, byddwn yn cyd-weithio i ehangu ar y cyflwyniad hwnnw i'w hyrwyddo i gyrraedd ffurf y bydd yn bosibl i ni ei ariannu;

- 'Rydym yn cefnogi'r egwyddor o gael cynllun eglur ar gyfer gwneud penderfyniadau ac o gael targedau perfformio clir. O ganlyniad, 'rydym yn cefnogi fformiwla arfaethedig Grŵp Arddangos Ffilm Arbenigol Cymru (a welir yn eu papur: 'Dyfodol Arddangos Ffilmiau Arbenigol yng Nghymru' 2006) i ddyfarnu arian craidd sydd wedi ei sylfaenu ar gasglu data manwl ac ar adlewyrchu'r perfformiad yn erbyn nifer y teitlau arbenigol a fydd yn cael eu dangos, y nifer o weithiau bydd ffilmiau'n cael eu cyflwyno, a'r nifer o bobl a fydd yn y cynulleidfaoedd, gan ystyried maint dalgylch pob lleoliad.

- Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant, gan gynnwys Grŵp Arddangos Ffilmiau Arbenigol Cymru a Ffederasiwn Cymdeithasau Ffilm Prydain - Grŵp Cymru, a sefydliadau annibynnol eraill sydd wrthi eisoes yn dangos, neu sydd yn bwriadu cyflwyno, ffilmiau arbenigol, diwylliannol a ffilmiau nad ydynt yn perthyn i'r prif-ffrwd i gynulleidfaoedd ledled Cymru.

- Mae'r Asiantaeth yn bwriadu ymateb heb oedi, yn addysgiadol ac yn gwrtais bob tro.

Arddangos: Gweithgareddau Craidd

Gweithgaredd arddangos craidd yr asiantaeth yw hyrwyddo lleoliadau arddangos, cymdeithasau ffilm a threfnwyr gwyliau ffilm, i'w galluogi i barhau â, ac ehangu eu digwyddiadau a'u rhaglennu o ffilmiau; i adnabod, gwrando a deall gofynion ac anghenion y sector arddangos. Ble maent yn ateb gofynion ein Bwriadau a'n Amcanion byddwn yn ymateb i'r gofynion a'r anghenion hynny gorau gallwn ni. Wrth weithredu'r gweithgareddau craidd hyn byddwn yn:

- Darparu safle gwe gynhwysfawr a digwyddiadau “mynediad agored” ble gall yr Asiantaeth gyflwyno’i chynlluniau a’i gweithgareddau, a ble gall unrhyw un sydd â diddordeb gyfarfod â thîm yr Asiantaeth, cynnig syniadau a thrafod pynciau o ddiddordeb;

- Darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer datblygu arddangos ffilmiau arbenigol a gweithgareddau gwyliau ffilm yng Nghymru, drwy gydweithio â Grŵp Arddangos Ffilm Arbenigol Cymru, trefnwyr gwyliau, CCC ac UKFC;

- Cyfrannu tuag at adolygiad y strategaeth ar lefel Brydeinig, a gweithredu argymhellion ble mae hynny’n berthnasol;

- Datblygu banc data canolog o weithgaredd gwylio ffilmiau arbenigol, yn seiliedig ar ystadegau a ddaw oddi wrth y gwahanol arddangoswyr a’r trefnwyr gwyliau ffilm;

- Gweithredu cynllun cyllido eglur i gefnogi gweithgareddau craidd yr Arddangoswyr Ffilmiau Arbenigol. Canlyniad hyn fydd dosbarthiad teg yn yr arian craidd i gyd-fynd â faint o weithgaredd ffilm arbenigol a gynhelir gan bob arddangoswr. Byddwn yn teilwra pob trefniant nawdd ar gyfer pob lleoliad, gan ystyried amgylchiadau neilltuol pob un; sialensiau busnes a gan gynnwys targedau a gytunwyd arnynt ar y cyd. Fel rheol byddwn yn gweithredu ar sail cynlluniau busnes tair-blynedd, gan gadarnhau’r cyllido yn flynyddol;

- Gweithredu cynllun nawdd ar gyfer gwyliau ffilm, heblaw am y Digwyddiad Ffilm Rhyngwladol i Gymru sy’n cael ei ariannu drwy ddulliau eraill, a digwyddiadau arbennig nad ydynt yn perthyn i’r ŵyl, sydd wedi eu cynllunio ar gyfer cymdeithasau ffilm ac arddangoswyr nad ydynt eisoes yn derbyn arian craidd gan yr Asiantaeth, ond sy’n berchen ar weithgaredd ffilm arbenigol, diwylliannol neu weithgaredd nad yw’n perthyn i’r brif ffrwd. Bydd y cynlluniau hyn yn agored i’r sector broffesiynol a’r sector wirfoddol. Ble bwriedir cynnal digwyddiadau arbenigol a rhaglenni gwyliau yn y blynyddoedd canlynol, byddwn yn cyd-weithio â darparwyr y digwyddiadau/gwyliau hynny i ganfod ffyrdd newydd o weithredu y gellir eu harchwilio, a lle gellir ychwanegu at y gwerth ac ehangu mynediad i gynulleidfaoedd yn y dyfodol;

- Gweithio mewn partneriaeth â’r Cynulliad a’r Hub wrth dendro’r Digwyddiad Ffilm Rhyngwladol, a chynrychioli buddiannau’r Cynulliad wrth lwyfannu’r Ŵyl, yn nhermau datblygu’r cynnwys, y marchnata a’r gwaith allgymorth, gyda’r bwriad o ychwanegu at y gwerth ac ehangu mynediad i gynulleidfaoedd.

<u>Arddangos: Gweithgareddau Ychwanegol</u>

Yn ogystal â’n hamcanion craidd, byddwn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ychwanegol pan fydd y rheiny’n hyrwyddo Bwriadau ac Amcanion yr Asiantaeth, ac os fydd cyfyngiadau’r gyllideb yn caniatáu. Er enghraifft, byddwn yn:

- Ceisio adnabod a hyrwyddo cyfleoedd i fabwysiadau dull mwy cysylltiedig o weithio, rhannu gwybodaeth a chyd-weithio ar draws y rhwydwaith arddangos a darparwyr

gwyliau, a gyda sefydliadau eraill, ble gallwn obeithio gwella effeithlonrwydd a sicrhau manteision sylweddol;

- Hybu cyfleoedd fydd yn deillio o'r Rhwydwaith Sgrin Ddigidol arfaethedig, a gweithio gyda'r sector i ymchwilio ac i hyrwyddo'r gwaith o ehangu'r rhwydwaith honno yng Nghymru.